# 11.0 Ymgysylltu a Dylanwadu

## Creu Deddfwriaeth

## Trosolwg

1. **Cyflwyniad**
2. **Pwy sy'n gallu cyflwyno deddfwriaeth?**
3. **Beth yw'r broses gymeradwyo ddeddfwriaethol?**
4. **Cyfleoedd i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth**
5. **Gwybodaeth bellach**

Bydd y daflen wybodaeth hon yn esbonio sut y caiff deddf ei llunio yng Nghymru a sut gall y sector ddylanwadu ar hyn.

## Cyflwyniad

Mae **Senedd Cymru** yn gweithredu o dan fodel cadw pwerau.

Golyga hyn ei bod yn gallu creu cyfreithiau ar faterion nad ydynt wedi'u cadw gan **Senedd y DU**.

Mae'r rhain yn cynnwys iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, awdurdodau lleol, trafnidiaeth a datblygu economaidd.



Llun: Plentyn yn rhedeg gyda baner Cymru

Mae'r meysydd sydd wedi'u cadw gan **Senedd y DU** yn cynnwys materion cartref fel gamblo, caethwasiaeth, plismona a'r drefn gyhoeddus; masnach a diwydiant fel gwasanaethau'r post, diogelu'r defnyddiwr, a rheolau sy'n ymwneud â busnesau; nawdd cymdeithasol, materion tramor, amddiffyn a chyfiawnder. Mae elusennau a chodi arian wedi'u cadw gan **Senedd y DU**.

## Pwy sy'n gallu Cyflwyno Deddfwriaeth?

Mae'r broses ar gyfer creu deddfwriaeth yn golygu bellach fod yn rhaid i Fil gael ei gyflwyno'n gyntaf i mewn i'r **Senedd**. Cyfraith ddrafft yw Bil, ac unwaith y bydd wedi'i ystyried a'i basio gan y **Senedd** a chael Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines, daw'n **Ddeddf Senedd**.

Gall y canlynol gyflwyno Bil:

- Llywodraeth Cymru (bydd y mwyafrif o Filiau'n cael eu cyflwyno gan Weinidogion y Llywodraeth)
- Pwyllgorau'r Senedd
- Aelod o'r Senedd sy'n ennill pleidlais aelodau preifat – Gall Aelodau Senedd gyflwyno eu henwau ar gyfer y bleidlais, ynghyd â chynnig amlinellol o'r hyn yr hoffent eu cyflwyno.
- Comisiwn y Senedd – ond dim ond mewn perthynas â'i swyddogaethau ei hun.

Mae Taflen Wybodaeth ar wahân ar gael ar Gomisiwn y Senedd:
**11.7 Comisiwn y Senedd**

## Beth yw'r broses gymeradwyo ddeddfwriaethol?

Dyma'r broses ar gyfer ystyried Bil Llywodraethol yn y Senedd:

### Cam 1

Bydd egwyddorion cyffredinol Bil yn cael eu hystyried gan Bwyllgor, yna bydd y Senedd yn cytuno â'r egwyddorion cyffredinol. Bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar brif ddiben y Bil, yn hytrach nag edrych ar y mân fanylion gan y bydd hyn yn digwydd yn nes ymlaen yn y broses. Gall y Pwyllgor wahodd cynrychiolwyr o bartïon â diddordeb a gall agor cyfnod o ymgynghori i wahodd tystiolaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig i lywio ei waith.

Unwaith y bydd y Pwyllgor wedi adrodd, bydd gofyn i'r Senedd drafod a chytuno ar yr egwyddorion cyffredinol, drwy bleidleisio mewn Cyfarfod Llawn. Os na fydd y Senedd yn cytuno â'r egwyddorion cyffredinol yng Nghham 1 a bod y bleidlais yn cael ei cholli, yna ni fydd y Bil yn mynd gam ymhellach.

### Cam 2

Unwaith y bydd y Senedd wedi cytuno â'r egwyddorion cyffredinol, bydd y Pwyllgor wedyn yn ystyried y Bil yn fanwl gan gynnwys pleidleisio dros dderbyn neu wrthod diwygiadau unigol a gynigwyd gan Aelodau'r Senedd. Gall unrhyw Aelod Senedd gyflwyno diwygiadau i'r Bil, ac nid oes cyfyngiad ar nifer y diwygiadau y gellir eu cyflwyno.

Fodd bynnag, dim ond Aelodau'r Pwyllgor gall bleidleisio ar y diwygiadau. Gellir dim ond dod â'r cam hwn i ben pan fydd yr holl ddiwygiadau wedi'u hystyried a phan fydd pleidlais wedi'i bwrw arnynt.

## Cam 3

Bydd Cam 3 yn dod ar ôl cwblhau Cam 2. Yma, bydd y Bil yn cael ei ystyried yn fanwl gan y Senedd mewn Cyfarfod Llawn a diwygiadau'n cael eu gwneud gan Aelodau'r Senedd.

Gall unrhyw Aelod gyflwyno diwygiadau i'r Bil, ond y tro hwn nid oes yn rhaid i bob diwygiad gael ei ystyried. Y Llywydd fydd yn pennu pa ddiwygiadau gaiff eu hystyried yn ystod Cam 3, a bwrir pleidlais ar bob un ohonynt.

## Cam 3a

Mae cam diwygio opsiynol, ychwanegol o'r enw y cam Adrodd y gellir ei gymryd rhwng cam 3 a 4, os bydd yr Aelod Cyfrifol yn ei gynnig a'i fod yn cael ei gytuno gan y Senedd.

## Cam 4

Dyma gam olaf y Senedd ac yn y cam hwn, bwrir pleidlais derfynol yn y Cyfarfod Llawn i basio testun terfynol y Bil. Ni chaniateir unrhyw ddiwygiadau yn ystod y cam hwn, ac os na fydd y Senedd yn cytuno yn ystod y cam hwn, bydd y Bil yn methu.

## Cam 5

Os caiff y Bil ei basio gan y Senedd yng Ngham 4, rhaid iddo gael Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines cyn dod yn ddarn o gyfraith yn ffurfiol -yn Ddeddf Senedd.

**Biliau eraill**

Gall Pwyllgorau Senedd, Aelodau unigol o'r Senedd neu Gomisiwn y Senedd hefyd gyflwyno Biliau, a bydd y rhain fel arfer yn dilyn gweithdrefn debyg i'r hyn a nodir uchod.

# Cyfleoedd i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth

Mae cyfleoedd i'r sector ddylanwadu ar **Filiau'r Senedd** yn rhagweithiol ac yn adweithiol.

Mae angen i **Lywodraeth Cymru** ac **Aelodau Senedd** glywed gan y sector, gyda'i gyfoeth o brofiad ac arbenigedd rheng flaen, ar ba ddeddfwriaeth sydd ei hangen.

Mae'r dystiolaeth y gall y sector ei chyflwyno yn hynod bwerus wrth lobïo am newid.



Llun: Senedd Cymru/Welsh Parliament
© Photo by Nick Fewings on Unsplash

Gall lobïo **Llywodraeth Cymru** ac **Aelodau Senedd** ddylanwadu ar y rhaglen ddeddfwriaethol y mae **Llywodraeth Cyrmu** yn ymrwymo iddi bob blwyddyn, neu ddylanwadu ar y Biliau y gellir eu cyflwyno gan **Bwyllgorau'r Senedd** neu Aelodau sy'n ennill y bleidlais. Yn yr un modd, gall dilyn llwybr y Deisebau Cyhoeddus fod yn ffordd arall o greu diddordeb mewn deddfwriaeth ynghylch mater penodol a allai gael ei datblygu wedyn gan Bwyllgor neu **Aelod Senedd**.

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (MRS) yn wasanaeth sydd ar gael i bob **Aelod Senedd**, ac mae hwn hefyd yn gorff defnyddiol i fod mewn cysylltiad ag ef. Mae'n darparu adroddiadau cefndirol ac ymchwil ar gais yr **Aelod Senedd** a Phwyllgorau, a thrwy ddarparu adroddiadau a gwybodaeth i'r MRS, mae'n bosibl y gall y sector gyfleu ei negeseuon.

O ran dylanwadu ar y Biliau, mae cyfleoedd i gyfrannu at ymgynghoriad cyn-deddfu a pharhau i lobio diwygiadau yng nghamau 2 a 3 y broses, er bod cam 3 yn fwy cyfyngedig am na chaiff pob diwygiad ei ddewis i'w ystyried. Ceir cam ymgynghori hefyd weithiau cyn i'r Bil gael ei gyflwyno gerbron y **Senedd** i'w ystyried yn gyffredinol.

Gall **Llywodraeth y Cynulliad** neu **Aelod Senedd** ofyn am ymgynghoriad cyn dechrau'r broses ddeddfu swyddogol er mwyn sicrhau bod unrhyw Bil y maen nhw'n ei gynnig eisoes wedi'i ddiwygio a'i graffu arno gan randdeiliaid allweddol, ac felly'n cynyddu ei gyfle o fynd drwy'r broses swyddogol yn llwyddiannus.

## Is-ddeddfwriaeth

Mae Deddfau Senedd, ynghyd â Deddfau Senedd y DU, yn ddeddfwriaeth sylfaenol. Is-ddeddfwriaeth yw term cyffredinol am gyfreithiau a wneir o dan awdurdod Deddf. Gelwir is-ddeddfwriaeth hefyd yn ddeddfwriaeth eilaidd neu ddirprwyedig neu'n offerynnau statudol.

Wrth basio Deddf, mae'r **Senedd** yn cymeradwyo ei hegwyddorion, ei hamcanion cyffredinol a manylion pwysig yn ei chylch. Fodd bynnag, bydd y Ddeddf fel arfer yn rhoi pwerau is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru neu gorff arall i wneud rheolau a rheoliadau manwl neu gymell camau gweithredu penodol mewn perthynas â'r ffordd y caiff y brif gyfraith ei rhoi ar waith.

## Sut mae is-ddeddfwriaeth yn cael ei lunio?

Er y gall amryw o gyrff, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrff statudol eraill lunio is-ddeddfwriaeth, bydd y rhan fwyaf o is-ddeddfwriaethau sy'n berthnasol i'r **Senedd** yn cael eu llunio gan Weinidogion Cymru.

Mae tri phrif gategori o is-ddeddfwriaeth, yn dibynnu ar y weithdrefn a ddefnyddir i graffu ar yr is-ddeddfwriaeth a'i chymeradwyo. Dyma'r categorïau:

- **Dim gweithdrefn** – caiff hon ei chyhoeddi fel arfer, a dim ond Gweinidogion (neu eu swyddogion) sydd angen ei chymeradwyo.
- **Penderfyniad negyddol** – caiff ei chyhoeddi, ond gall y **Senedd** gytuno i ddiddymu (canslo) y ddeddfwriaeth, o fewn 40 o ddiwrnodau, os bydd Aelod yn cyflwyno cynnig yn gofyn am hyn.
- **Penderfyniad cadarnhaol** – cyhoeddir drafft ohoni a bydd angen i'r holl **Senedd** ei chymeradwyo cyn y gall ddod i rym.

O bryd i'w gilydd, ar gyfer deddfwriaeth neilltuol o bwysig neu ddadleuol, defnyddir yr hyn a elwir yn weithdrefn **uwch-gadarnhaol**. Mae hon yn debyg i'r weithdrefn gadarnhaol ond bod iddi ofynion ychwanegol o ran cyfnod ymgynghori cyn y gellir cyflwyno deddfwriaeth gerbron y **Senedd**.

## Sut mae gwaith craffu’n cael ei wneud ar is-ddeddfwriaeth?

Mae **Rheolau Sefydlog y Senedd** yn sicrhau bod Pwyllgor **Senedd** yn cael hyd at 20 diwrnod i gyflwyno adroddiad i‘r **Senedd** ar unrhyw fater sy‘n deillio o is-ddeddfwriaeth.

Mae is-ddeddfwriaethau penderfyniad cadarnhaol bob amser yn cael eu trafod a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan yr holl Senedd cyn y gallant ddod i rym. Daw is-ddeddfwriaethau penderfyniad negyddol i rym yn awtomatig oni bai bod Aelod Senedd yn gofyn iddi gael ei thrafod gan y **Senedd** (drwy gyflwyno cynnig yn gofyn i‘r ddeddfwriaeth gael ei dirymu).

**Dolen Allanol**

I gael rhagor o wybodaeth am y Mesurau sy’n cael eu hystyried gan y Senedd ar hyn o bryd, gweler:

Cynnydd Biliau’r Senedd

## Gwybodaeth bellach

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**
**Ffôn: 0800 2888 329**
www.wcva.cymru

**Senedd Cymru**
www.senedd.wales

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/**

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.